

Pecyn Dogfen Cyhoeddus



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Safonau Dyddiad: Dydd Iau, 22 Mehefin
2017
Rhif Union: 01824 706204
ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Aelod o'r Pwyllgor,

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR SAFONAU, DYDD GWENER, 30 MEHEFIN 2017** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I DDOD I'R RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd yn un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYNS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 5 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2017 (copi wedi'i amgáu).

5 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU

(Tudalennau 15 - 16)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau (copi wedi'i amgáu).

6 LLYFR ACHOSION COD YMDDYGIAD - OMBWDMSMON

GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (Tudalennau 17 - 32)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi wedi'i amgáu) yn hysbysu'r aelodau o gyhoeddiadau diweddaraf Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsmen.

7 CAIS GOLLYNGIAD CYNGOR TREF BODELWYDDAN (Tudalennau 33 - 40)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi wedi'i amgáu), ynglŷn â chais am olyngiad a wneir gan Gyngor Tref Bodelwyddan.

8 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Nodi presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Safonau yng nghyfarfodydd Cynghorau Sir, Tref a Chymuned a derbyn eu hadroddiadau.

9 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD

Ystyried adroddiad ar lafar gan y Dirprwy Swyddog Monitro gydag adborth gan y Cyngor Blynnyddol ynglŷn ag Adroddiad Blynnyddol y Cadeirydd.

10 DIGWYDDIADAU HYFFORDDI AELODAU SYDD AR Y GWEILL

I gael diweddariad ar lafar o ddigwyddiadau hyfforddi ar y gweill i Aelodau.

11 FFORWM PWYLLGOR SAFONAU GOGLEDD CYMRU

I gael adroddiad ar lafar gan y Swyddog Monitro ar y materion a drafodwyd yn Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru.

12 DYDDIAD CYFARFOD NESAF

Trefnwyd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau ar gyfer 22 Medi 2017.

RHAN 2: EITEMAU CYFRINACHOL

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod trafod y mater(ion) canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraff "[Nodwch Rif]" Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

13 COD YMDDYGIAD - RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

(Tudalennau 41 - 42)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Swyddog Monitro (copi wedi'i amgáu) sy'n rhoi trosolwg o gwynion yn erbyn aelodau a gyflwynwyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

AELODAETH

Aelodau Annibynnol:

Ian Trigger (Cadeirydd), Mrs Paula White, Julia Hughes a/ac Anne Mellor

Aelod Cyngor Tref/Cymuned:

Y Cynghorydd David E Jones

Cynghorwyr Sir:

Y Cynghorydd Paul Penlington

Y Cynghorydd Andrew Thomas

COPIAU I'R:

Holl Gyngorwyr er gwybodaeth

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd

Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Eitem Agenda 4

PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Gwener 10 Mawrth 2017 am 10.00am.

YN BRESENNOL

Aelodau Annibynnol Julia Hughes, Anne Mellor ac Ian Trigger (Cadeirydd) ynghyd â'r Cyngorwyr David Jones, Barry Mellor a Meirick Lloyd Davies.

HEFYD YN BRESENNOL

Swyddog Monitro (GW) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SJ)

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynhorwr(wyr)
Mrs P White

2 DATGAN CYSYLTIAD

Dim

3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2016.

Materion yn codi -

Tudalen 9 – Eitem 5 – Fforwm Safonau Gogledd Cymru – Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ynglŷn â'r dyddiad y cynhelir y fforwm nesaf yn Sir Ddinbych, eglurodd y Swyddog Monitro i'r Pwyllgor bod angen eglurder o ran dyddiadau o ran argaeledd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau.

Holodd y Cadeirydd ynglŷn ag argaeledd hyfforddiant cyfryngu ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau, ac fe gytunodd y Swyddog Monitro y byddai'n olrhain y mater ac yn diweddarwr aelodau. **(GW i weithredu)**

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro bod canllawiau ynglŷn â'r cosbau a gynhyrchwyd gan Banel Dyfarnu Cymru wedi'u dosbarthu i'r Aelodau.

Tudalen 8 - Eitem 4 - Cofnodion - Holodd yr Aelod Annibynnol Julia Hughes am bresenoldeb mewn cyfarfodydd ac am y daenlen o fynychwyr a gynhyrchwyd. Dosbarthodd y Swyddog Monitro'r rhestr i'r Aelodau ei ystyried.

Tudalen 9 – Eitem 5 – Fforwm Safonau Gogledd Cymru – Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Aelod Annibynnol Julia Hughes ynglŷn â chyhoeddi datganiadau cysylltiad a fynegwyd mewn cyfarfodydd Cyngor Dinas/ Tref / Cymuned, eglurodd y Swyddog Monitro y byddai'n arfer da pe bai Datgan Cysylltiad yn eitem ar raglen cyfarfodydd o'r fath. Dylid storio unrhyw ddatganiadau a wneir fel cofnod ond nid oedd yn ofynnol eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2016 fel cofnod cywir.

5 HYGYRCHEDD GWYBODAETH GAN GYNGHORAU DINAS, TREF A CHYMUNED – ADOLYGIAD BLYNYDDOL

Cyfeiriodd yr Aelod Annibynnol Julia Hughes (JH) at yr adroddiad archwilio a gyflawnodd i asesu hygyrchedd gwybodaeth o wefannau 37 o Gynghorau Dinas / Tref /Cymuned yn Sir Ddinbych o gymharu ag astudiaeth a gynhaliwyd ar ddiwedd 2015- dechrau 2016. Roedd y meysydd a archwiliwyd a'r wybodaeth a geisiwyd yn cynnwys-

- argaeedd cofnodion blaenorol gan gynnwys y dyddiad
- manylion dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod nesaf
- darpariaethau dwyieithog
- nodiadau a manylion ychwanegol

Atgoffwyd yr Aelodau bod y canfyddiadau yn darparu ciplun o'r adeg hynny, ac y gallai newid. Cyflwynodd JH adroddiad trosolwg o'r gwaith a wnaed ar draws y 37 Cyngor Dinas, Tref a Chymuned yn Sir Ddinbych a dyma'r prif ganfyddiadau -

- roedd sawl gwefan yn bodoli ond wedi hen ddyddio
- nid oedd llawer o'r gwefannau'n ddwyieithog
- roedd rhai gwefannau wrhi'n cael eu datblygu
- dim ond rhaglenni safonol nad oedd yn newid o gwbl oedd gan sawl cyngor
- roedd gwefannau'r Cynghorau Tref yn fwy datblygedig ar y cyfan
- roedd rhai safleoedd yn enghreifftiau ardderchog i ardaloedd eraill eu defnyddio pe baent yn dymuno
- Nid yw llawer o safleoedd yn gysylltiedig neu nid oedd ganddynt y manylion diweddaraf ar wefan Sir Ddinbych - www.moderngov.denbighshire.gov.uk
- roedd rhai safleoedd wedi'u cysylltu â www.politicsresources.net/area/uk/wa-councils/wa-council-ac.htm (safle Llywodraeth Cymru), ond roedd llawer heb eu cysylltu iddo
- nid oedd gan bedwar cyngor bresenoldeb electronig
- nid oedd gan lawer unrhyw fanylion am eu cynghorwyr na sut i gysylltu â nhw
- roedd gan rai cynghorau hen wefannau a oedd yn ymddangos wrth chwilio amdanynt, felly roeddech chi'n credu nad oedd unrhyw wybodaeth ddiweddar
- roedd rhai safleoedd yn dda gyda thempled i da ond roedd rhai wedi dyddio

O ganlyniad, argymhellodd JH y canlynol fel gofynion sylfaenol, yn ei safbwyt hi-

- cael gwefan

- enw part hawdd sy'n ymddangos yn gymharol hawdd mewn chwiliadau
- dolen i wefan 'modern government' Sir Ddinbych
www.moderngov.denbighshire.gov.uk
- dylid cywiro'r ddolen ar wefan Cyngor Sir Ddinbych i wefan y Cyngorau Dinas, Tref neu Gymuned ac ni ddylai fod yn ddolen i hen safle
- dolen i wefan Llywodraeth Cymru www.politicsresources.net/area/uk/wa-councils/wa-council-ac.htm
- roedd angen i unrhyw ddolenni ar www.politicsresources.net/area/uk/wa-councils/wa-council-dl.htm fod yn rhai cywir
- mae gwefan ddwyieithog yn hanfodol
- enw'r clerc gyda llun a manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad e-bost a rhif ffôn
- enwau'r holl gynghorwyr gyda'u lluniau a manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn
- dyddiadau, lleoliadau ac amseroedd cyfarfodydd
- rhagleni
- cofnodion blaenorol
- manylion am yr ardaloedd y mae'r cyngor yn eu gwasanaethu gyda map os oes modd
- sut y gallai pobl gael eu cynnwys - bod yn gynghorydd, mynd i gyfarfodydd

Argymhellion ychwanegol dewisol -

- ffurflen ymholiadau electronig
- hanes yr ardal
- digwyddiadau yn yr ardal
- dolenni i wefannau grwpiau lleol eraill
- defnydd o gyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â chynulleidfaedd ehangach
- manylion ar God Ymddygiad
- cofnod o ddatganiadau cysylltiad.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i JH am ei gwaith caled a'i hadroddiad ardderchog ac adleisiodd aelodau eraill y teimladau hynny.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd -

- fel aelod o Gyngor Tref y Rhyl, adroddodd y Cyngorydd Barry Mellor bod cyllid grant wedi galluogi adnewyddu gwefan y Rhyl ac oherwydd ei fod yn ei ddyddiau cynnar roedd disgwyl iddo fod o safon uchel
- roedd y Cadeirydd o blaid anfon yr adroddiad ymlaen i Reolwr Ymgysylltu â'r Gymuned i'w ddosbarthu i Gynghorau Dinas / Tref / Cymuned mewn cyfarfodydd clwstwr. (**GW i weithredu**)
- Cyfeiriodd y Cyngorydd Barry Mellor at y ffaith fod nifer o Gynghorau Dinas / Tref / Cymuned yn gorfol cyllido creu gwefan gan fod toriadau cyllid wedi arwain at gymhwysyo cyllid i ddarpariaethau eraill.
- pryderon nad oedd gan 4 Gyngor Cymuned wefan, dwywaith y nifer a nodwyd yn yr adroddiad blaenorol.

Cydnabu'r Pwyllgor, er y byddai rhai o argymhellion yr adroddiad yn cymryd amser ac y byddai angen arian ychwanegol, roedd eraill yn cynnwys arfer da ac nid oedd angen adnoddau ychwanegol arnynt. Cydnabuwyd hefyd, er bod y ffocws wedi bod

ar wella mewn rhai meysydd, roedd yr adroddiad wedi datgelu llawer o bethau cadarnhaol a gwaith rhagorol ac arfer da oedd yn cael ei wneud mewn cymunedau y gellid eu rhannu ar draws Sir Ddinbych.

PENDERFYNWYD –

- (a) *derbyn a nodi'r adroddiadau a gyflwynwyd gan yr Aelod Annibynnol Julia Hughes ar hygyrchedd gwybodaeth ar wefannau'r wyth Cyngor Dinas, Tref a Chymuned terfynol, a'r Adroddiad Trosolwg ar Gyfathrebu Electronig y Cynghorau Tref a Chymuned;*
- (b) *bod copïau o'r adroddiadau yn cael eu hanfon ymlaen at y Rheolwr Ymgysylltu â'r Gymunedl, a fyddai'n cael cais i ymgysylltu â'r Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned ynghylch y materion a godwyd (**GW i weithredu**).*

6 PARATOI ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD AR GYFER Y CYNGOR LLAWN

Cyflwynodd y Swyddog Monitro ymddiheuriad gan y Dirprwy Swyddog Monitro a chyflwyno'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Aelodau (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn cyflwyno Adroddiad Blynnyddol y Cadeirydd 2016 i'w ystyried cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Monitro am gyflwyno'r adroddiad ac i'r Dirprwy Swyddog Monitro am ei gwaith caled i baratoi'r adroddiad. Yn ystod y drafodaeth cytunwyd ar y diwygiad canlynol-

- Diwygio'r cyfeiriad at 'Wybodaeth' yn y tabl ym mharagraff 4.3 i 'wybodaeth electronig'.

Agorodd y Cadeirydd y drafodaeth gan ofyn i'r aelodau a oedden yn teimlo y dylid trafod unrhyw faterion neu bwyntiau pellach pan gaiff ei drafod gyda'r Cyngor Llawn. Roedd y Pwyllgor Safonau eisiau i Gynghorwyr fod yn ymwybodol o waith y Pwyllgor Safonau ynghyd â'r gwaith a'r pwysau yr oedd Cynghorau Dinas / Tref a Chymuned yn eu hwynebu.

Cytunodd y Swyddog Monitro y byddai'n rhannu'r diwygiadau a'r sylwadau gyda'r Dirprwy Swyddog Monitro i baratoi drafft diwygiedig i'w gymeradwyo gan y Cadeirydd cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn. (**GE a LJ i Weithredu**)

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, y dylai'r aelodau nodi'r adroddiad ac argymhell bod y Cadeirydd yn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn.

7 LLYFR ACHOSION COD YMDDYGIAD - OMBWDMSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn hysbysu aelodau o'r rhifyn diweddaraf o Lyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsmen sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Hydref a Rhagfyr 2016.

Roedd manylion y cwynion a archwiliwyd yn ystod y cyfnodau hyn wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad a'u crynhoi gan y Swyddog Monitro.

Holodd y Cadeirydd ynglŷn â chadw cofnodion o gwynion nad oeddent angen unrhyw gamau pellach. Eglurodd y Swyddog Monitro i'r Pwyllgor Safonau pe bai cwyn yn cael ei harchwilio, byddai swyddfa'r ombwdsmon yn archwilio pob agwedd o'r gŵyn. Mewn achosion o beidio â chymryd camau pellach ni fyddai cofnod cyhoeddus ohono ond byddai swyddfa'r Ombwdsmon yn cadw ffeil yr achos am gyfnod.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Safonau yn nodi'r wybodaeth sydd yn Llyfr Achos y Cod Ymddygiad.

8 HYFFORDDIANT – DEUNYDD CYFLWYNO CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i hysbysu'r pwyllgor bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi creu deunyddiau cyflwyno. Eglurodd y Swyddog Monitro bod y cyngor wedi mabwysiadu pecyn hyfforddiant ei hun yn y blynnyddoedd diwethaf. Roedd CLILC wedi llunio pecyn hyfforddiant i ddarparu cyfres gyffredin o adnoddau y gellir eu defnyddio ledled Cymru, ac annog dealltwriaeth gyffredin o ofynion y Cod Ymddygiad rhwng aelodau etholedig.

Eglurodd y Swyddog Monitro ei fod ef a'r Dirprwy Swyddog Monitro yn fodlon â'r pecyn hyfforddiant a ddarparwyd gan CLILC. Roedd y pecyn hyfforddiant a'r nodiadau hyfforddi wedi'u cynhyrchu'n ddwyieithog i gynorthwyo i ddarparu hyfforddiant effeithiol. Eglurodd y Swyddog Monitro bod pecyn hyfforddiant wedi'i ddylunio i gynorthwyo i hyfforddi Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Cymuned. Hysbysodd y Swyddog Monitro'r aelodau bod elfen e-ddysgu wedi'i chynhyrchu i gyd-fynd â'r pecyn hyfforddiant.

Eglurodd y Swyddog Monitro fod y pecyn hyfforddiant a gynhyrchwyd gan CLILC yn cyflwyno darpariaeth ystyrlon o hyfforddiant ac yn rhoi amrywiaeth o opsiynau i'r aelodau dderbyn mynediad at ddeunyddiau hyfforddiant.

Canmolodd y Cyngropydd Barry Mellor yr hyfforddiant a ddarparwyd yn flaenorol gan y Sir fel hyfforddiant o'r safon uchaf. Canmolodd y Cyngropydd David Jones a'r aelod annibynnol Anne Mellor y pecyn hyfforddiant newydd fel pecyn cryno a thryloyw. Gofynnodd yr aelod annibynnol Julia Hughes a ellir hysbysu aelodau'r Pwyllgor Safonau o unrhyw ddyddiadau hyfforddiant er mwyn iddynt allu eu mynychu ac elwa o'r model hyfforddiant newydd (**GW i weithredu**).

Canmolodd y Cadeirydd y Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro am eu gwaith ar y sesiynau hyfforddiant blaenorol a ddarparwyd i'r aelodau. Roedd yn credu y byddai'r Clercod yn elwa o sesiynau hyfforddiant neu dderbyn adnoddau ychwanegol ar gyfer hyfforddiant. Pwysleisiodd y Swyddog Monitro y byddai'r amrywiaeth o ddulliau darparu hyfforddiant o fudd i fwy o unigolion. Gofynnodd y Swyddog Monitro i'r pwyllgor os oeddent yn teimlo y byddai'n fuddiol trefnu sesiynau 'hyfforddi'r hyfforddwyr' gyda Chlercod i gynorthwyo gyda hyfforddiant yng nghyfarfodydd Cyngor Dinas / Tref / Cymuned. Cytunodd y Pwyllgor Safonau y byddai hyn yn ddull adeiladol o hyfforddi aelodau. (**GW i weithredu**)

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Safonau yn nodi'r adroddiad ac yn argymhell eu bod yn darparu'r hyfforddiant i aelodau newydd ac aelodau sy'n dychwelyd i'r Cyngor Sir a'r Cynghorau Dinas / Tref a Chymuned.

9 PROSES DATRYSIAD LLEOL AR GYFER CYNGHORAU DINAS/TREF/CYMUNED

Darparodd y Swyddog Monitro adroddiad llafar ar broses Datrysiaid Lleol ar gyfer Cynghorau Dinas / Tref / Cymuned. Eglurodd y Swyddog Monitro mai'r broses ar hyn o bryd yw pan fo Cynghorau Dinas / Tref / Cymuned yn derbyn cwyn, mae'r Clerc yn gyfrifol am gynorthwyo Cadeirydd y Cyngor i gyflawni datrysiaid boddhaol. Pwysleisiodd y Swyddog Monitro'r cyfrifoldebau a'r pwysau a roddir ar Glercod i ddatrys cwynion ar ben y dyletswyddau rheolaidd a wneir.

Byddai'r broses a fabwysiadwyd yn y Sir ar gyfer cwynion yn golygu bod aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn cael eu gwahodd i gynorthwyo i ddatrys y gŵyn. Gofynnodd y Swyddog Monitro i'r Pwyllgor Safonau a oeddent yn cytuno bod aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd y Cynghorau Dinas / Tref / Cymuned er mwyn cynorthwyo'r cleric i ddatrys cwynion. Cytunodd yr Aelodau Annibynnol y byddai hyn o fudd i'r Clercod.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Safonau yn derbyn a nodi'r adroddiad llafar ar broses Datrysiau Lleol.

10 ADOLYGU PROTOCOL HUNAN REOLEIDDIO'R CYNGOR

Darparodd y Swyddog Monitro adroddiad llafar ar Brotocol Hunan Reoleiddio'r Cyngor. Eglurodd y Swyddog Monitro i aelodau'r Pwyllgor Safonau bod Protocol Hunan Reoleiddio'r Cyngor wedi'i addolygu a'i gymharu â Phrotocolau eraill ac mae'r gweithdrefnau'n debyg iawn. Nododd y Swyddog Monitro bod y gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan y Sir ar hyn o bryd yn gweithio'n dda. Nodwyd bod unrhyw gwynion gan aelodau'r cyhoedd yn gorfol cael eu pasio ymlaen i'r Ombwdsmon.

Cynigodd y Swyddog Monitro, yn y lle cyntaf, ei fod ef neu'r Dirprwy Swyddog Monitro yn ceisio datrys materion yn anffurfiol a bod cyfranogiad aelodau'r Pwyllgor Safonau yn cael ei gadw ar gyfer achosion na ellir eu datrys ar y cam hwnnw. Trafododd y Pwyllgor Safonau bod Clercod Cynghorau Dinas / Tref / Cymuned yn gweithio gyda'i gilydd i gynorthwyo ei gilydd wrth archwilio cwynion yn eu hawdurdodau eu hunain. Cytunodd y Swyddog Monitro y byddai'n drafftio dogfen i'w dosbarthu i'r grwpiau clwstwr i archwilio opsiynau ar gyfer cynorthwyo ei gilydd, gan ddarparu cyfryngwr mewn sefyllfaedd anodd. Canmolodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies yr argymhelliaid hwn gan nodi bod unigolion yn adnabyddus iawn o fewn Cynghorau Cymuned bach a byddai archwilio cwynion yn heriol (**GW i weithredu**).

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Safonau yn derbyn a nodi'r adroddiad llafar ar Brotocol Hunan Reoleiddio.

11 PAPUR GWYN – DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL CADERNID AC ADNEWYDDIAD

Darparodd y Swyddog Monitro adroddiad llafar yn hysbysu'r aelodau o ddarpariaethau Papur Gwyn –"Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac

Adnewyddiad". Darparodd y Swyddog Monitro drosolwg cyffredinol o'r prif ddarpariaethau yn y papur. Ymhelaethodd ar y darpariaethau a gynhwysir yn y Bil Drafft a oedd yn cynnwys y canlynol -

- Gwaith rhanbarthol – diddymu uno gorfodol gyda gwaith rhanbarthol gorfodol yn cael ei gyflwyno.
Eglurodd y Swyddog Monitro y byddai'r dystiolaeth ar gyfer gwaith rhanbarthol yn dibynnu ar weld effaith gadarnhaol yn rhanbarthol ac nid o reidrwydd effaith gadarnhaol yn ardal pob awdurdod.
- Rhannu gwasanaethau swyddfa gefn - cynigion ar gyfer rhannu gwasanaethau swyddfa gefn gan gynnwys y Gymraeg, Archwilio Mewnol a chasglu Trethi'r Cyngor. Profion ar gyfer datganoli cyfrifoldeb i'r rhanbarthau – eglurodd y Swyddog Monitro'r rhestr helaeth o gwestiynau sydd i'w gofyn mewn perthynas â datganoli cyfrifoldeb i'r rhanbarthau.
- Llywodraethu ac atebolrwydd – cynnig llyfr rheolau cyffredin i bawb ei ddilyn. Eglurodd y Swyddog Monitro y byddai manylion i ddilyn ynglŷn â Llywodraethu ac atebolrwydd gan gynnwys manylion trefniadau cylido ar gyfer Cydbwyllgorau Llywodraethu.
- Etholiadau a phleidleisio – eglurodd y Swyddog Monitro i'r Pwyllgor Safonau bod yr elfen hon yn y Bil yn eithaf amwys gyda manylion pellach i ddod yn ddiweddarach.
- Rôl Cynghorwyr a chynigion a fyddai'n effeithio ar y Pwyllgor Safonau – ymhelaethodd y Swyddog Monitro ar rôl y Cynghorwyr a'u cyfrifoldebau. Eglurodd y Swyddog Monitro rai o'r gofynion y byddai'r Pwyllgor Safonau yn eu hwynebu megis darparu cyngor a hyfforddiant i aelodau ynglŷn â dyletswyddau newydd a chynhyrchu adroddiad blynyddol ar weithgareddau'r Pwyllgor Safonau, y mae'r pwyllgor eisoes yn ei gynhyrchu.

Roedd y cyflwyniad llafar yn darparu trosolwg i'r Pwyllgor Safonau o rai o'r newidiadau arfaethedig a sut y byddent yn effeithio ar y Pwyllgor Safonau a'r Awdurdod.

Eglurodd y Swyddog Monitro y disgylir adborth gan Awdurdodau Lleol mewn perthynas â'r Bil ym mis Ebrill, gydag addasiadau ac adborth yn cael ei gyflwyno i Gynulliad Cymru yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Byddai adroddiad diweddar yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Monitro am ei waith caled a'i ganmol am symleiddio pwnc cymhleth. Nododd y Cadeirydd y newidiadau posibl i'r Pwyllgor Safonau a dywedodd y byddai'n ddiddorol gweld y canlyniad.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Safonau yn derbyn a nodi'r adroddiad llafar ar Bapur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Leol – Cadernid ac Adnewyddiad.

12 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Cadarnhaodd yr Aelod Annibynnol Anne Mellor ei bod wedi mynchu cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelwy a gynhalwyd ar 6 Ionawr 2017. Nododd y Swyddog Monitro ei phresenoldeb ac fe gadarnhaodd y byddai'n diweddar u'r adroddiad presenoldeb i adlewyrchu hyn (**GW i weithredu**).

Cadarnhaodd a dosbarthodd y Swyddog Monitro restr o Gynghorau Dinas / Tref / Cymuned yr ymwelwyd â nhw yn y tair blynedd diwethaf. Adolygodd yr aelodau annibynnol Julia Hughes ac Anne Mellor y rhestr gyda'r Cadeirydd Ian Trigger a phenderfynu pa gyfarfodydd yr oedd angen ymweld â nhw.

Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor am e-bost, fel y dosbarthwyd yn flaenorol, i'r Cynghorau Dinas / Tref / Cymuned yn hysbysu'r aelodau y gallai aelodau'r Pwyllgor Safonau fynychu eu cyfarfodydd (**GW i weithredu**).

13 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau i'w ystyried a chytunodd yr aelodau ar yr ychwanegiadau canlynol:-

- Diweddarriad ar y Papur Gwyn – Medi
- Diweddarriad ar Weithrediad Hyfforddiant – Medi

PENDERFYNWYD yn amodol ar y diwygiadau uchod, bod y Pwyllgor Safonau'n cytuno ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

14 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nododd yr Aelodau bod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau wedi'i drefnu ar gyfer 10.00am ddydd Gwener 30 Mehefin 2017 yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun.

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

PENDERFYNWYD dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

15 COD YMDDYGIAD – RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cyflwynodd y Swyddog Monitro'r adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i roi trosolwg i'r Aelodau o gwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ers 1 Ebrill 2014.

Roedd y Pwyllgor Safonau eisoes wedi gofyn am gael gwybod yn rheolaidd am lefel y cwynion a gyflwynwyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Roedd y tablau yn Atodiad 1 yn darparu trosolwg o'r cwynion a gyflwynwyd ers 1 Ebrill 2014. Roedd 13 achos heb eu holrhain, 2 achos wedi dod i ben, 5 achos heb eu harchwilio ac 1 achos lle na chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Darparodd y Swyddog Monitro ddiweddariad ar un cwyn sy'n parhau, gan egluro i'r pwyllgor y trafodwyd yr achos penodol hwn mewn cyfarfodydd blaenorol. Darparodd y Swyddog Monitro rywfaint o gyd-destun ac eglurhad o gefndir y gŵyn a pham na gymerwyd unrhyw gamau pellach.

PENDERFYNWYD - bod y Pwyllgor Safonau yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl aelodau am eu presenoldeb a'u cyfraniadau, yn enwedig Julia Hughes am ei gwaith caled. Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Monitro am ei arweiniad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd David Jones, a hysbysodd y pwyllgor mai dyma ei gyfarfod olaf. Dymunodd y cadeirydd y gorau i'r Cynghorydd Jones ar gyfer y dyfodol a diolch iddo am ei waith a'i gefnogaeth i'r Pwyllgor Safonau. Diolchwyd iddo am ei agwedd ddymunol, ffyddlondeb a chyfraniadau i holl gyfarfodydd y Pwyllgor.

Adleisiodd y Swyddog Monitro'r diolchiadau i'r Cynghorydd Jones am ei waith a'i gyfraniadau i'r Pwyllgor Safonau, a diolchodd i'r Cynghorydd Meirick Lloyd Davies a Barry Mellor am eu cyfraniadau a'u cefnogaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.00pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

STANDARDS COMMITTEE FORWARD WORK PROGRAMME

PLEASE NOTE AGENDA TO BE CIRCULATED 1 WEEK IN ADVANCE OF MEETING

DATE OF MEETING	REPORT ITEMS / AREAS	REPORT AUTHOR
22 September 2017	Standing Item: Attendance at Meetings	N/A
	Standing Item: PSOW Code of Conduct Casebook	Gary Williams (Monitoring Officer)
	Standing Item: Standards Committee Forward Work Programme	Gary Williams (Monitoring Officer)
	Standing Part 2 Item: Overview of Complaints in Denbighshire	Gary Williams (Monitoring Officer)
	Update to the White paper (To be confirmed)	Gary Williams (Monitoring Officer)
	Update on the Training implementation	Gary Williams (Monitoring Officer)
24 November 2017	Standing Item: Attendance at Meetings	N/A
	Standing Item: PSOW Code of Conduct Casebook	Gary Williams (Monitoring Officer)
	Standing Item: Standards Committee Forward Work Programme	Gary Williams (Monitoring Officer)
	Standing Part 2 Item: Overview of Complaints in Denbighshire	Gary Williams (Monitoring Officer)

Updated 17/03/2017 - SJ

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Safonau
Dyddiad y Cyfarfod:	30 Mehefin 2017
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Gary Williams, Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad:	Gary Williams, Swyddog Monitro
Teitl:	Llyfr Achosion Cod Ymddygiad - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn ymwneud â Llyfr Achosion Cod Ymddygiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon).

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am rifyn diweddaraf Llyfr Achos Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod aelodau'r Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth sydd yn Llyfr Achos y Cod Ymddygiad.

4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1 Ers 2013 mae'r Ombwdsmon wedi cynhyrchu Llyfr Achosion Cod Ymddygiad (y Llyfr Achosion). Am beth amser cyn hynny bu'r Ombwdsmon yn cynhyrchu llyfr achosion oedd yn ymwneud â'r cwynion y bu'n ymchwilio iddynt o safbwyt camweinyddu honedig gan gyrrff cyhoeddus. Yn dilyn galwadau i ddefnyddio dull tebyg o safbwyt cwynion cod ymddygiad, dechreuodd yr Ombwdsmon gyhoeddi'r Llyfr Achosion yn 2013.
- 4.2 Yn wreiddiol, roedd y Llyfr Achosion yn cael ei gyhoeddi ddwywaith y flwyddyn, fodd bynnag mae'r Ombwdsmon wedi penderfynu cynhyrchu'r llyfr achosion yn chwarterol o Ebrill 2015. Mae'r Llyfr Achosion yn cynnwys crynodeb o bob achos y mae'r Ombwdsmon wedi cwblhau ymchwiliad iddynt yn ystod y cyfnod perthnasol.
- 4.3 Cynhyrchiwyd y Llyfr Achosion i gynorthwyo Aelodau ac eraill i ystyried a yw'r amgylchiadau y maent yn eu hwynebu yn arwain at dorri'r Cod. Roedd hyn yn ychwanegiad i gyhoeddi esiamplau gwirioneddol yng Nghanllaw Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynglŷn â'r Cod.

- 4.4** Bydd y Llyfr Achosion yn caniatáu mynediad i Bwyllgorau Safonau awdurdod lleol i wybodaeth am y ffordd mae Pwyllgorau Safonau eraill yng Nghymru yn gosod sancsiynau a chael gwared ar achosion ac yn helpu i esbonio pam, mewn rhai achosion y gall yr Ombwdsmon wrthod ymchwilio toriadau honedig ar y sail nad yw honiadau blaenorol tebyg wedi arwain at sancsiwn.
- 4.5** Mae Atodiad 1 i'r adroddiad hwn yn cynnwys Rhifyn 12 o'r Llyfr Achosion a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2017, yn trafod y cyfnod o fis Ionawr 2017 tan fis Mawrth 2017. Bydd Aelodau'n nodi bod 13 crynodeb achos yn y rhifyn hwn o'r llyfr achosion, ac mai dim ond 1 ohonynt oedd yn cynnwys atgyfeiriad at y Pwyllgor Safonau ac ni chyfeiriwyd unrhyw un ohonynt at Banel Dyfarnu Cymru.
- 4.6** O'r 13 achos yma, nid oedd unrhyw dystiolaeth o dorri rheolau mewn 3, ni chredwyd fod angen camau pellach mewn 9 a chyfeiriwyd 1 at Pwyllgor Safonau'r awdurdod hwnnw.
- 4.7** Roedd yr 13 achos yn perthyn i dri chategori cyffredinol, roedd 8 yn ymwneud â datgelu a chofrestru cysylltiadau, 3 yn ymwneud â hyrwyddo cydraddoldeb a pharch, a 2 yn ymwneud ag gwrthrychedd a phriodoldeb.
- 4.8** Mae'r cwynion yn ymwneud â datgelu a chofrestru cysylltiadau yn cynnwys 6 chwyn y mae'n ymddangos a wnaed gan yr un achwynydd yngylch yr un digwyddiad ond yn cynnwys 6 gwahanol aelod o'r un Cyngor Cymuned.
- 4.9** Bydd Aelodau'n nodi fod un o'r cwynion lle na ystyriwyd fod angen camau pellach yn eu cylch yn ymwneud ag aelod o Gyngor Tref Prestatyn. Y gwyn oedd bod y Cyngorydd wedi methu datgan cysylltiad ar ddau achlysur mewn mater yn ymwneud â chais cynllunio a oedd yn debygol o gael effaith ar ei fusnes. Dyfarnodd yr Ombwdsman fod hwn yn gysylltiad personol a oedd yn rhagfarnu, fodd bynnag, nid oedd yr Ombwdsman yn credu fod y Cyngorydd yn ceisio dylanwadu ar y penderfyniad ac nad y Cyngor Tref oedd y penderfynwr mewn perthynas â'r cais. **4.9** Pwrpas y cyfarfodydd oedd ystyried y sylwadau y byddai'r Cyngor Tref yn eu gwneud i'r awdurdod cynllunio. **4.9** Ym marn yr Ombwdsman nid oedd angen camau pellach, ond dylai'r Cyngorydd ystyried ei weithredoedd a chael hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad
- 4.10** Roedd yr achos a gyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau yn ymwneud ag aelod o Gyngor Sir Powys a oedd wedi anfon gohebiaeth a oedd yn portreadu gweithrediad gwrandawiad apêl Anghydfod yn y Cyngor mewn modd annheg ac anghywir. Rhoddodd y Pwyllgor Safonau 5 mis o waharddiad i'r Aelod a apeliodd yn erbyn y penderfyniad hwn i Banel Dyfarnu Cymru. Canlyniad yr apêl oedd bod y Panel Apêl wedi cyfeirio'r mater yn ôl at y Pwyllgor Safonau gydag argymhelliaid y dylai'r gwaharddiad fod am 3 mis.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Nid yw'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

Nid oes angen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Nid yw'r mater hwn wedi ei adrodd nac wedi ei ymgynghori arno yn unrhyw le arall.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oes unrhyw risgiau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

11. Gym i wneud y Penderfyniad

Nid oes angen gwneud penderfyniad.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

The Code of Conduct Casebook

Issue 12 April 2017

Contents

Introduction	1
Case summaries	3
No evidence of breach	3
No action necessary	5
Referred to Standards Committee	10
Referred to Adjudication Panel for Wales	11
More information	12

Introduction

Overall I am pleased that my office received 14% less code complaints this year than in 2015/16. I believe this is due to the introduction of local resolution for county councils (low level councillor against councillor complaints being referred to the Monitoring Officer in the first instance) finally having an impact. There is also some evidence over the last 12 months of this approach being adopted by town and community councils who are attempting some form of informal resolution stage before cases are referred to my office.

Outcome	2016/17	2015/16
Closed after initial consideration	184	213
Complaint withdrawn	20	15
Investigation discontinued	10	10
Investigation completed: No evidence of breach	12	11
Investigation completed: No action necessary	16	10
Investigation completed: Refer to Standards Committee	5	3
Investigation completed: Refer to Adjudication Panel	1	3
Total Outcomes – Code of Conduct complaints	248	265

The Code of Conduct
Casebook

Out of the cases that I have seen, only six were referred either to the Standards Committee or the Adjudication Panel for Wales. This clearly shows that only the most appropriate cases are being referred, and demonstrates that the consideration of the public interest test continues to be an effective means of using 'common sense for common good'.

Despite a decrease in the overall number of code complaints received by my office, the number taken to full investigation has marginally risen. However this is balanced by the increase in the number of cases that have been discontinued or where no action is necessary - further evidence of the effectiveness of the public interest test at all stages of the investigation process.

Other changes this year include the issuing of updated Code of Conduct guidance for councillors based on changes to the Model Code of Conduct made in April 2016 and the establishing of a Code Advisory Group which has proactive oversight of the management of code of conduct complaints. This has led to a 19% increase in cases taking less than six months for a decision to be taken. I am pleased with this positive step forward which means that both complainants and accused members are receiving a timely outcome, helping to relieve the stress and inconvenience that an investigation can cause.

Overall I am encouraged that we are starting to see movements towards councils taking more ownership of low level complaints and attempting to resolve these on a local level, meaning that my office's time and resources are being used for only the more serious cases. I anticipate that this will continue to be something we will focus on and encourage going forward. However whilst I am fully supportive of this approach, it is still important that the more serious allegations of breach of the Code of Conduct are brought to me for investigation and, where appropriate, referred to the Standards Committee or Adjudication Panel for Wales remembering that the authority to make a determination of breach and/or sanction rests solely with them.

I hope that by continuing to work collaboratively over the coming year we can improve standards in public life, whilst building public confidence and promoting good governance in our democratic institutions.



Nick Bennett
Ombudsman

Case summaries

